

SWYDD-DDISGRIFIAD: CYNORTHWYDD BAR A'R GEGIN

Cyflwg:	£8.21 yr awr.
Tymor:	Cynigir y swydd fel cytundeb dim oriau.
Oriau:	Amrywiol.
Cyfnod Rhybudd:	1 wythnos.
Pensiwn:	Mae Theatr y Sherman yn gweithredu cynllun pensiwn y gweithle cymwys.
Yr hawl i weithio:	Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennau o dan Ddeddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006.
Geirdaon:	Mae cynigion swydd yn amodol ar dderbyn geirdaon sy'n foddhaol i Theatr y Sherman.
Adleoli:	Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fyw o fewn pellter cymudo i'r theatr.
Dyddiad dechrau:	Mae'r swydd ar gael ar unwaith.

Mae ein bar caffi ar agor yn ystod y dydd o Ddydd Llun – Ddydd Sadwrn ac ar ddyddiau Sul pan mae perfformiadau neu ddiwyddiadau. Mae'r Bar Caffi hefyd yn agor ar gyfer perfformiadau nos. Ar gyfer y mwyafrif o berfformiadau nos, bydd y bar yn parhau i fod ar agor hyd terfyn oriau Trwyddedu arferol. Mae'r bar fel arfer wedi'i thrwyddedu hyd at hanner nos, ac ar adegau penodol hyd at 1.30yb. Bydd eich sift yn dod i ben unwaith y bydd y bar wedi cau ac wedi'i lanhau i safon dderbyniol wedi derbyn archwiliad gan reolwr ar ddyletswydd.

Bydd y nifer o oriau y disgwylir i chi weithio yn ddibynol ar y nifer o berfformiadau fydd yn cymryd lle yn Theatr y Sherman. Felly, bydd y nifer o oriau ar gael yn amrywio o wythnos i wythnos.

SWYDD-DDISGRIFIAD: CYNORTHWYDD BAR A'R GEGIN

TEITL Y SWYDD:	Cynorthwydd Bar a'r Gegin
YN ATEBOL I:	Rheolwr y Bar a'r Gegin, Goruchwyliwr Bar a Chegin a'r Rheolwyr ar Ddyletswydd
PERTHNASAU GWAITH ALLWEDDOL:	Rheolwr Tŷ, Tîm Marchnata a Chysylltiadau
LLEOLIAD:	Theatr y Sherman
ORIAU GWAITH:	Amrywiol yn unol ag oriau gweithredu. Cynigir y swydd ar delerau cytundeb sero awr. Mae'n rhaid i ymgeiswyr feddu ar yr hyblygrwydd i weithio nosweithiau a phenwythnosau, gan gynnwys nosweithiau Gwener a Sadwrn yn benodol, pan mae'r sifftiau hyn ar gael.

PWRPAS Y SWYDD

I weithio'n rhan o dîm i ddarparu gwasanaethau cwsmeriaid o'r safon uchaf, mewn modd sydd bob tro'n rhadlon, yn gyfeillgar a dengar.

Sicrhau diogelwch a lles yr adeilad a chynnal y safonau uchaf posib o ofal cwsmer, pryd a gwedd ac arferion gwaith tîm y Bar a'r Gegin.

Hyrwyddo lefelau eithriadol o wasanaeth cwsmer, gan weithio gyda Rheolwr y Bar a'r Gegin a'r tîm Blaen Tŷ i ddarparu safonau gwasanaeth cwsmer ar draws pob agwedd o ryngweithiau'r cwmni gyda'r cyhoedd.

Paratoi a darparu bwyd a lluniaeth o'r safon uchaf mewn modd sy'n ufudd i bob rheoliad iechyd a diogelwch a pholisiau a gweithdrefnau'r Sherman ei hun.

I ddarparu cymorth i'r bar yn rhan o'u dyletswyddau rheolaidd trwy baratoi lluniaeth o'r safon uchaf yn unol â rheoliadau iechyd a diogelwch a safonau uchel y Sherman ei hun.

Ymroi i hyfforddiant a meddu ar y gallu i ymgymryd â chyfrifoldebau mewn modd sy'n arddangos gwerthoedd y cwmni.

PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU

Darparu gwasanaeth cwsmer o'r raddfa uchaf bob amser yn unol â safonau darpariaeth y Sherman

- Dangos gwybodaeth dda o ddigwyddiadau, prisiau, pecynnau, cynigion hyrwyddo, gweithgareddau o fewn yr adeilad a newidiadau yn y rhaglen er mwyn darparu gwasanaeth cynhwysfawr ac effeithiol.
- Gwrando'n astud ar gwsmeriaid, casglu adborth, a dilyn gweithdrefnau a phrotocolau'r cwmni, gan gyfeirio unrhyw fater at aelod uwch o'r staff, fel bo'r angen.
- Sirchau fod yr holl daflenni a'r arddangosfeydd manwerthu wedi'u cyflenwi'n llawn ac wedi'u harddangos yn ddeniadol drwy'r amser.
- Dilyn ceisiadau'r person hwnnw sy'n goruchwyllo eich gwaith.
- Gweithio fel aelod o'r tîm gan rannu eich gwybodaeth ag eraill.
- Mynychu digwyddiadau hyfforddi i sicrhau eich bod chi'n medru ymgymryd â'ch cyfrifoldebau mewn modd sy'n arddangos gwerthoedd y cwmni.
- Mynychu a chyfrannu tuag at gyfarfodydd tîm fel bo'r angen.

Hyblygrwydd

- Bod yn barod i weithio mewn unrhyw ardal penodedig ar unrhyw adeg.

Bar/Arlwyo

Hylendid Bwyd	Bod yn ymwybodol o weithdrefnau hylendid bwyd sylfaenol.
Paratoi Bwyd	I baratoi eitemau oddi ar y fwydlen yn unol â dulliau a chyflwyniadau penodedig
Gwerthiant Diodydd	Y gwerthiant o ddiodydd bar cyn/wedi-sioe gan gynnwys archebion egwyl.
Gwasanaeth	Cymryd archebion cwsmeriaid ar gyfer bwyd a diod a gweini diodydd a phrydiau wedi'u platio i fyrddau.
Ailgyflenwi stoc	Sicrhau fod ein holl nwyddau ar gael i'w gwerthu ac wedi'u harddangos mewn modd briodol. I gymryd triniaeth ymarferol tuag at lefelau stoc isel.
Trafodion	Cymryd taliadau ar ffurf arian neu gerdyn gan sicrhau cyfansymu cywir.

Trin a thrafod arian	Cymryd taliadau ar ffurf arian gan sicrhau cyfansymu cywir.
Casglu Ysbwriel	Cadw meysydd y Bar a'r Cyntedd yn lân a thaclus cyn, yn ystod ac wedi pob perfformiad.
Gofal Cwsmer	Darparu cyfarwyddiadau a gwybodaeth am ddi&gwyddiadau ac am yr adeilad.
Gweithdrefnau ymadael	Darparu ffyrdd diogel i'r cyhoedd adael yr adeilad mewn argyfwng.
Atodion Caffi/Bar	Sicrhau fod y cyntedd yn cael ei gadw'n daclus trwy gasglu gwydrau, crochenwaith, cyllyll a ffyre ac unrhyw atodion Caffi/Bar eraill a sicrhau eu bod yn cael eu golchi yn y peiriant golchi llestri perthnasol/priodol a'u dychwelyd at y stoc glan – yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur.

Deall, gwybod a bod yn barod i arwain y gweithdrefnau ynghlwm â rôl cydlynedd tân yn Theatr y Sherman

- Peidio â gwylltio mewn unrhyw sefyllfa.
- Adrodd yn nôl i'r rheolwr llinell priodol am bob perygl.
- Ymgymryd â hyfforddiant ynghlwm â rôl y Cydlynedd Tân fel bo'r disgwyl.
- Gweithredu fel person allweddol yn y broses o wagio'r adeilad ac ymddwyn fel Cydlynedd Tân mewn argyfwng neu broses ymadael.

Cynnal gweithdrefnau diogelwch, dilyn gweithdrefnau'r ewmni ynghlwm â delio gydag arian, bancio a chymryd pob gofal i atal lladrad

- Cymryd pob gofal posib yn ystod pob trafodyn i leihau anghysondebau a sicrhau eich bod yn gwybod prisiau cywir cynnyrch gan felly gydymffurfio â gweithdrefnau archwilio'r Sherman. Dilyn cymhwysiadau PCI a GDPR i sicrhau eich bod yn ufuddhau i'r cyfreithiau cysylltiedig.

Bod yn ymwybodol o'r systemau a'r protocolau ymhob maes gwaith

- Glynu at systemau gweinyddol
- Derbyn cyfrifoldeb personol priodol ar gyfer dilyn, hybu a gweithredu polisiau Theatr y Sherman ar Gyfleoedd Cyfartal, Iechyd a Diogelwch, Gofal Cwsmeriaid a Thrwyddedau.

MANYLION Y PERSON: CYNORTHWYDD BAR A'R GEGIN

Rhaid bod ar gael yn ystod y dyddiau, penwythnosau a rhai cyfnodau gwyliau. Mae'n rhaid i ymgeiswyr fod ar gael i weithio o leiaf un dydd Gwener a dau ddydd Sadwrn y mis, er na ellir sierhau'r sifftiau hynny. Bydd y swydd hon yn gweddu ymgeiswyr sy'n rhadlon, hyderus a chadarnhaol ac sydd hefyd yn meddu ar y sgiliau a'r medrau allweddol canlynol.

HANFODOL

- *Profiad o baratoi bwyd ar gyfer y cyhoedd a'r gweithdrefnau a'r cyfreithiau perthnasol.*
- *Gwybodaeth am reoliadau hylendid bwyd.*
- *Gwybodaeth am reolaeth alergenau.*
- *Profiad da o waith bar.*
- *Barista hyfforddedig.*
- *Profiad o weithio mewn amgylchedd gwasanaethol dan bŵysau.*
- *Sgiliau rhyngbersonol/gofal cwsmer gŵych: angen bod yn agored, yn gyfeillgar a chymwynasgar.*
- *Y gallu i ddarparu safon uchel o ofal cwsmer.*
- *Y gallu i weithio fel aelod o dîm.*
- *Y gallu i weithio yn annibynol.*
- *Y gallu i ddilyn cyfarwyddiadau.*
- *Y gallu i ymateb yn gadarnhaol i newidiadau yn yr amgylchedd gwaith ac i ddelio â phŵysau taer o fewn y rôl fel y maent yn codi.*
- *Peidio â gwylltio, ac ymddwyn mewn modd broffesiynol dan amgylchiadau o straen.*
- *Cydwbybodol: Mae gan staff y bar a'r gegin rôl diogelwch bwysig.*
- *Cyflwyniad personol da: Mae staff y bar a'r Gegin yn cynrychioli gwedd gyhoeddus Theatr y Sherman.*
- *Hyblyg ynglyn ag oriau gwaith.*
- *18+ mlwydd oed.*

DYMUNOL

- *Diddordeb yn y theatr.*
- *Y gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg*
- *Profiad blaenorol o weithio mewn amgylchedd theatrig.*
- *Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant pellach fel bo'r angen.*
- *Deilydd Trwydded Bersonol.*